



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|---|---|----------|
| Luc 24: 36-49; Ioan 20: 19-23 |  | |
| 1 Y noson honno, sef nos Sul, roedd y disgyblion gyda'i gilydd. Roedd y drysau wedi eu cloi am fod ganddyn nhw ofn yr arweinwyr Iddewig. |  | |
| 2 Roedden nhw'n siarad am Iesu'n ymddangos i'r ddau ar y ffordd i Emaus. Yna dyma Iesu'n dod i mewn a sefyll yn y canol. |  | |
| 3 "Shalôm!" meddai wrthyn nhw. Ystyr 'Shalôm', ydy 'Heddwch i chwi'. Roedd y disgyblion nhw wedi cael braw. Roedden nhw'n meddwl eu bod nhw'n gweld ysbryd. |  | |

-
- 4 Ond dyma Iesu'n gofyn iddyn nhw, "Beth sy'n bod? Pam dych chi'n amau pwy ydw i? Edrychwch ar fy nwylo a'm traed i. Fi sydd yma go iawn! Cyffyrddwch fi. Byddwch chi'n gweld wedyn mai dim ysbryd ydw i.



-
- 5 Does gan ysbryd ddim corff ag esgyrn fel hyn!" Roedd yn dangos ei ddwylo a'i draed iddyn nhw wrth ddweud y peth. Roedden nhw'n teimlo rhyw gymysgedd o lawenydd a syfrdandod, ac yn dal i fethu credu'r peth. Felly gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Oes gynnoch chi ryw beth i'w fwyta yma?"



-
- 6 Dyma nhw'n rhoi darn o bysgodyn wedi ei goginio iddo, a dyma Iesu'n ei gymryd a'i fwyta o flaen eu llygaid.



-
- 7 Esboniodd Iesu iddyn nhw beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud, er mwyn iddyn nhw ddeall. Mae'r ysgrifau yn dweud fod y Meseia yn mynd i ddioddef a marw, ac yna dod yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn.



-
- 8 Dwedodd Iesu, "Rhaid cyhoeddi'r neges yma yn Jerwsalem a thrwy'r gwledydd i gyd: fod pobl i droi cefn ar eu pechod a bod Duw'n barod i faddau iddyn nhw. Chi ydy'r llygad-dystion sydd wedi gweld y cwbl!"



-
- 9 Felly dw i'n mynd i anfon beth wnaeth fy Nhad ei addo i chi — arhoswch yma yn y ddinas nes i'r Ysbryd Glân ddod i lawr a'ch gwisgo chi gyda nerth."



-
- 10 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



www.freebibleimages.org

-
- 11

